# Dosbarth derbyn: Anifeiliaid rhyfeddol

**Meysydd Dysgu:**

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**
Adnabod ac enwi ystod o anifeiliaid cyffredin.
Cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch nodwedion sylfaenol pethau byw.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**
Esbonio eu dewisiadau yn syml.

**Sgiliau rhifedd**

- Cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?'.

**Gwybodaeth gefndirol:**
Ein thema y tymor hwn yw ‘Anifeiliaid rhyfeddol’. Fel rhan o'n thema roedd y plant wedi enwi anifeiliaid cyffredin a thrafod ble maen nhw'n byw.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd:**
Cafodd y plant luniau mawr o wahanol gynefinoedd (môr, tywod, pwll, llyn, coeden, cae, pridd) a chasgliad o gardiau bach gyda lluniau o amrywiaeth o anifeiliaid. Fel grŵp roedd rhaid iddyn nhw drafod ble mae pob anifail yn byw a rhoddwyd y cardiau llun yn y lle priodol. Dechreuodd y plant drafod nifer o anifeiliaid mewn gwahanol gynefinoedd ac arweiniodd hyn at drafodaeth ar faint ohonyn nhw sy'n byw yn y dŵr/ar y tir/dan ddaear, ac ati.

**Cwestiynau allweddol:**

- Mae 2 anifail yn byw yn y pwll ac mae 1 yn byw yn y môr. Sawl anifail sy'n byw yn y dŵr?
- Os oes 3 seren fôr ar y traeth ac mae 2 arall wedi cael eu golchi i'r lan ar y tywod, faint ohonyn nhw sydd i gyd?
- Sawl anifail sy'n byw ar y tir? (Cyfunwch y cae a'r tywod.)

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 WG14632

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**







Mae 2 anifail yn byw yn y pridd ac mae 1 anifail yn byw yn y gwair.

Mae 2 ac 1 yn gwneud 3!



**Ysgrifennodd y plant symiau adio syml i ddangos eu cyfrifiadau.**

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

## Dosbarth derbyn: Creaduriaid bach

**Maes Dysgu:**
**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

**Fi fy hun a phethau byw eraill**

- Dechrau deall nodweddion sylfaenol gwrthrychau, deunyddiau a phethau byw.

**Sgiliau rhifedd**

- Cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy.
- Cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at o leiaf 10.
- Cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?'.

**Gwybodaeth gefndirol:**
Roedd y plant yn dysgu am greaduriaid bach ac roedd y dosbarth wedi bod yn edrych ar greadur bach bob dydd o'r llyfr ffeithiol *Walkabout: Minibeasts* gan Henry Pluckrose (Hatchette Children's Books, 2003). Ymchwiliodd y plant i nodweddion pob creadur bach ac arweiniodd y plant yr ymchwil drwy ofyn beth yr hoffen nhw ddarganfod am bob creadur bach. Roedd diddordeb mawr ganddyn nhw yn lliwiau'r creaduriaid bach a faint o goesau oedd ganddyn nhw.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd:**
Cafodd y plant amrywiaeth o greaduriaid bach roedden nhw wedi bod yn eu hymchwilio. Fel grŵp ailadroddwyd nodweddion y gwahanol greaduriaid bach. Gofynnwyd i'r plant drefnu'r creaduriaid bach ar blatiau gwahanol. I gychwyn roedden nhw wedi trefnu'r creaduriaid bach yn ôl lliw. Sylweddolodd y plant yn fuan bod rhai o'r creaduriaid bach yn wahanol liwiau. Awgrymodd un plentyn y dylen nhw roi creaduriaid bach ag adenydd ar un plât a chreaduriaid bach heb adenydd ar blât arall, ac roedden nhw wedi gwneud hynny'n llwyddiannus. Pan ofynnwyd iddyn nhw geisio meddwl am ffordd arall o drefnu'r creaduriaid bach, aethon nhw ati i'w trefnu yn ôl nifer y coesau.

**Cwestiynau allweddol:**

- Sut gallwch chi ddarganfod sawl coes sydd ganddyn nhw?
- Sawl coes sydd gan wlithen?
- Sawl coes sydd gan fuwch goch gota?
- Sawl coes yn fwy sydd gan gorryn na buwch goch gota?
- Pa greadur bach sydd â'r mwyaf o goesau?
- Pa greadur bach sydd â'r lleiaf o goesau?
- Dangoswch i mi sawl coes sydd gan forgrugyn.
- Allwch chi ddangos 6 i mi mewn ffordd arall?
- Sut mae'r coesau'n cael eu gwahanu?
- Felly beth allwch chi ddweud wrtha i am 3 a 3?
- Sawl coes sydd i gyd?



© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**

**Deunyddiau enghreifftiol**



**Sut gallwch chi ddarganfod sawl coes sydd ganddyn nhw?**

Cyfrifwch nhw. 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8 . . . Mae 8 coes gan sgorpion.

**Pa greadur bach sydd â'r mwyaf o goesau?**

Y corryn a'r sgorpion, mae 8 coes ganddyn nhw.







**Sut mae coesau'r buwch goch gota wedi'u gwahanu?**

3 ar yr och yma, 3 ar yr ochr arall.

**Sawl coes sydd gan was y neidr?**

6 choes, mae'n mynd yma gyda'r buwch goch gota.

Does dim coesau gan y mwydyn. Gallwn ni ei roi e ar y plât yma.



**Felly beth allwch chi ddweud wrtha i am 3 a 3?**

Mae 3 a 3 yn gwneud 6.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

# Blwyddyn 1: Gardd dyblau

**Meysydd Dysgu:**
**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

**Fi fy hun a phethau byw eraill**
- Adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr awyr agored.

**Datblygiad Creadigol**
**Celf, crefft a dylunio**
- Datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio.
- Myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

**Sgiliau rhifedd**

- Defnyddio ffeithiau rhif o fewn 10: dyblu a haneru (*e.e. 4* + *4*).

**Gwybodaeth gefndirol:**
Bob blwyddyn bydd ein hysgol yn cynnal cystadleuaeth arddio, felly rydym yn treulio amser yn ymchwilio, yn dylunio ac yn myfyrio ar ein gardd.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd:**
Gofynnwyd i'r plant ddylunio a chreu 'gardd dyblau' yn yr iard adeiladu. Gofynnwyd iddyn nhw gydweithio fel grŵp i greu cynllun ac yna defnyddio'r cynllun i adeiladu eu gardd.

**Cwestiynau allweddol:**
- Os oes 4 moron ar un ochr, faint fydd gennych chi i gyd?
- Os ydym yn tynnu 2 o'r ochr hon, faint fyddai ar ôl i gyd?
- Os oes 10 rhosyn i gyd, sawl un sydd ar bob ochr?

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

Mae'n rhaid i ni dorri nhw allan mewn eilrifau, nid yw unrhyw odrifau yn ddyblau.



Os oes 4 moron gen i ar yr ochr yma bydd gen i gyfanswm o 8. Os ydw i'n adio un arall mae gen i 9 ond alla i ddim gael 9 – mae'n odrif!





Ein gardd dyblau!

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

## Blwyddyn 1: Y ganolfan arddio

**Maes Dysgu:**
**Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

**Llafaredd**

- Defnyddio iaith i greu a chynnal chwarae llawn dychymyg a chwarae rôl.

**Sgiliau rhifedd**

- Defnyddio ffeithiau rhif o fewn 10: bondiau o 10 (*e.e. 6 + 4*)
- Adio a thynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych.

**Gwybodaeth gefndirol:**
Fel rhan o thema y tymor hwn, sef 'tyfu', penderfynodd y plant yr hoffen nhw ddysgu mwy am arddio. Roedden nhw am greu canolfan arddio yn ein cornel chwarae rôl.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd**:
Gofynnwyd i'r plant brynu a gwerthu eitemau wedi'u prisio o'r ganolfan arddio gan roi'r newid priodol pan fydd angen. Yna fe symudon nhw ymlaen i ymchwilio i'r hyn y gallen nhw ei brynu am 10c gan ddefnyddio eu gwybodaeth o fondiau o 10.

**Cwestiynau allweddol:**

- Beth allech chi ei brynu am 10c?
- Pe byddai 20c gennych beth allech chi ei brynu?
- Os oeddech chi wedi prynu rhaca mawr am 8c ac wedi talu gyda 10c, faint o newid fyddai ei angen arnoch?
- Pe byddech chi'n prynu rhaw am 6c ac roedd gennych chi 10c i'w wario, beth arall allech chi ei brynu?

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 


**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

Os ydych chi'n prynu hadau am 1c mae angen 9c o newid arnoch oherwydd mae 1 a 9 yn gwneud 10.





Dyma ein canolfan arddio!




Gallwch chi brynu llawer o bethau am 10c. Gallwch chi brynu can dyfrio am 8c a phot am 2c neu gallwch chi brynu rhaw am 6c a blodau am 4c.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

# Blwyddyn 2: Tyfu

**Meysydd Dysgu:**
**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

**Fi fy hun a phethau byw eraill**
- Adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr awyr agored.

**Datblygiad Creadigol**
**Celf, crefft a dylunio**
- Datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio.
- Myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

**Sgiliau rhifedd**

- Cyfrif setiau o wrthrychau drwy eu rhoi mewn grwpiau o 2, 5 neu 10.

**Gwybodaeth gefndirol:**
Bob blwyddyn bydd ein hysgol yn cynnal cystadleuaeth arddio, felly rydym yn treulio amser yn ymchwilio, yn dylunio ac yn myfyrio ar ein gardd.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd:**
Gofynnwyd i'r plant greu cynllun gan ddangos beth roedden nhw am ei gael yn ein gardd dosbarth. Os oedden nhw'n plannu ffrwythau neu lysiau roedd rhaid iddyn nhw eu rhoi nhw mewn rhesi o 2, 5 neu 10.

**Cwestiynau allweddol:**
- Os oes 5 mefusen ar bob planhigyn, sawl un fyddai ar 2, 3, 4, 5 planhigyn?
- Os oes 5 moron ym mhob rhes, sawl rhes fyddai ei hangen i dyfu 22 moron?
- Os oes 30 moron i gyd, sawl rhes sydd?

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**



Os oes 5 moron mewn rhes ac rydw i am gael 10, bydd angen 2 rhes arna i.

Os oes gen i ddwbl 9 taten bydd gen i 18 ond rydw i am gael 22 felly bydd angen dwy set arall arna i.






Edrychwch! Mae gennym ni 2, 4, 6, 8, 10, 12 o fenig brwnt a 12 o esgidiau glaw brwnt!

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

# Blwyddyn 2: Y Teulu Brenhinol

**Maes Dysgu:**
**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

**Sgiliau rhifedd**

- Canfod gwahaniaethau bach o fewn 20 drwy ddefnyddio strategaethau cyfrif ymlaen.
- Casglu a chofnodi data o:
  – graffiau bloc
  – pictogramau lle mae'r symbol yn cynrychioli un uned.

**Gwybodaeth gefndirol:**
Mae'r plant wedi bod yn ymchwilio i fywyd Brenhines Elisabeth II ac wedi dangos diddordeb arbennig yn ei theulu. Drwy chwarae rôl roedden nhw wedi dynwared y Frenhines a'i phlant. Roedd gweddill y dosbarth wedi cyfweld â'r 'Teulu Brenhinol' i gael gwybod mwy amdanyn nhw.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd:**
Yn dilyn y chwarae rôl lluniodd y plant goeden achau'r 'Teulu Brenhinol' a'i chymharu â'i goeden achau ei hun. Roedden nhw wedi cynrychioli'r wybodaeth mewn siartiau cyfrif, graffiau bloc a phictogramau ac aethon nhw ymlaen i ddehongli eu canlyniadau.


**Cwestiynau allweddol:**

- Faint yn fwy o__________ na_______________?
- Faint yn llai o ___________na________________?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng__________________?
- Pa faint teulu yw'r mwyaf/lleiaf?

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 


## Rhifedd
## Deunyddiau enghreifftiol

**Sawl plentyn sydd â mwy nag 1 plentyn yn ei deulu?**




| Children in the family | Number of people |
|---|---|
| One | 2 |
| Two | 8 |
| Three | 10 |
| Four | 2 |
| Five | 3 |
| Six or more | 1 |


Mae gan 24 o blant yn ein dosbarth fwy nag 1 plentyn!




| Children in the family | Number of people |
|---|---|
| One | 2 |
| Two | 8 |
| Three | 10 |
| Four | 2 |
| Five | 3 |
| Six or more | 1 |

**Faint o blant sydd gan y rhan fwyaf o bobl?**

**Beth mae'r pictogram yn ei ddweud wrthych chi am deuluoedd sydd â 6 neu ragor o blant?**




| Children in the family | Number of people |
|---|---|
| One | 2 |
| Two | 8 |
| Three | 10 |
| Four | 2 |
| Five | 3 |
| Six or more | 1 |

Dim ond 1 plentyn yn ein dosbarth sydd â theulu gyda 6 neu fwy o blant!

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

# Blwyddyn 2: Pengwiniaid

**Maes Dysgu:**
**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

**Lleoedd a Phobl**

- Dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn gwahanol rannau o'r byd.

**Fi fy hun a phethau byw eraill**

- Adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr awyr agored.

**Sgiliau rhifedd**

- Cyfrif setiau o wrthrychau drwy eu rhoi mewn grwpiau o 2, 5 neu 10.
- Galw i gof tablau lluosi 2, 5 a 10 a'u defnyddio i ddatrys problemau syml.

**Gwybodaeth gefndirol:**
Roedd y plant yn ymchwilio i fywydau pengwiniaid yn seiliedig ar y testun ffeithiol *The Emperor Lays an Egg* gan Brenda Z Guiberson (Henry Holt and Co., 2001). Drwy eu gwaith ymchwil roedd y plant wedi dysgu bod pengwiniaid yn paru am oes a gallan nhw ddodwy un neu ddau wy.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd:**
I gychwyn gofynnwyd i'r plant amcangyfrif sawl pengwin y gallen nhw ei weld yn yr olygfa. Symudon nhw ymlaen i wneud datganiadau ynghylch faint o bengwiniaid sydd os oes partner gan bob pengwin a faint o bengwiniaid sydd os yw pob pâr yn dodwy 1 wy ac yna 2 wy.

**Cwestiynau allweddol:**

- Faint o bengwiniaid ydych chi'n meddwl sydd yn y llun?
- Beth yw'r ffordd gyflymaf y gallwch chi eu cyfrif nhw?
- Os oedd hanner yn wryw faint sy'n fenyw?
- Sawl pâr o bengwiniaid sydd?
- Pe byddai pob pengwin yn dodwy wy sawl pengwin fyddai i gyd?
- Faint o bengwiniaid sydd os yw pob pâr yn dodwy 2 wy ac mae pob wy yn deori'n llwyddiannus?

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 WG14632

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

**Sut gallwch chi ddarganfod faint o bengwiniaid sydd?**




Galla i gyfrif mewn grwpiau o 2.  Mae 24.

**Mae hanner y pengwiniaid yn wryw. Sawl un sy'n fenyw?**



Hanner 24 yw 12 . . . Mae 12 pengwin yn fenyw.

**Sawl pengwin sydd os yw pob pâr yn dodwy wy?**




24 plws 10 yw 34 . . .

adio 2 arall yn rhoi 36.
Byddai 36 o bengwiniaid i

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

## Blwyddyn 2: Coed ffa

**Meysydd Dysgu:**
**Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**
**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

**Llafaredd**
Profi amrywiaeth o symbyliadau gan gynnwys storïau, rhai gwir a rhai dychmygol.

**Sgiliau rhifedd**

- Galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10, er mwyn deillio ffeithiau eraill, h.y.:
  – dyblu a haneru (*e.e. 40* + *40*).

**Gwybodaeth gefndirol:**
Y thema ar gyfer yr hanner tymor hwn oedd 'tyfu'. Roedd y plant yn cael eu cyflwyno i'r stori Jac a'r Goeden Ffa ac roedden nhw hefyd yn tyfu planhigion ffa fel rhan o'r thema.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd:**
Lluniwyd cyfres o broblemau rhif drwy gyd-destun y stori. Gofynnwyd i'r plant beth fyddai uchder y goeden ffa ymhen 5 diwrnod pe byddai'r goeden ffa yn tyfu 10m ar y diwrnod cyntaf ac yna byddai'n dyblu o ran uchder bob dydd. Symleiddiwyd y cwestiwn i 1m i'r plant llai galluog. Cawson nhw dabl a graff i'w cwblhau.

**Cwestiynau allweddol:**
- Pa mor uchel fyddai'r goeden ffa ar ôl 2 ddiwrnod?
- Fydd y goeden ffa yn tyfu'r un maint bob dydd?
- Pa mor uchel fydd y goeden ffa ar ôl 5 diwrnod?

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Rhifedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**



**Pa mor uchel fydd y goeden ffa ar ôl 2 ddiwrnod?**

Ystyr dyblu yw adio dwywaith. Mae'n 2m!



**Fydd y goeden ffa yn tyfu'r un maint bob dydd?**

Na fydd. Mae'n mynd i fod yn fawr iawn. Mae'n rhaid i mi ddyblu o hyd.

**Pa mor uchel fydd y goeden ffa ar ôl 5 diwrnod?**



Dwbl 8 yw 16 felly dwbl 80m yw 160m.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012